Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu na chynnal toiledau cyhoeddus eu hunain. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus trwy ddarpariaeth uniongyrchol neu weithio gyda busnesau preifat i wneud cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.

Mae Strategaeth Toiledau Lleol Conwy, a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2023, yn amlinellu cynllun y Cyngor i barhau i ddarparu toiledau cyhoeddus ar sail cost niwtral.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi adolygu'r toiledau cyhoeddus yng Nghonwy ac wedi penderfynu nad oes modd i ni barhau i ddarparu'r lefel o wasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r ffaith nad yw rhai cyfleusterau'n gynaliadwy.

Nid oes gennym bellach y gyllideb i gymorthdalu toiledau cyhoeddus, felly mae'n rhaid i ni adennill costau rhedeg o gyfleusterau y telir amdanynt. Rydym wedi ystyried pa mor aml mae'r cyfleusterau'n cael eu defnyddio, ymhle mae'r toiledau eraill sydd ar gael, a pha mor aml mae'r cyfleusterau'n cael eu fandaleiddio.

Rydym wedi ysgrifennu at Gynghorau Tref a Chymuned ac wedi cynnig cyfle iddynt noddi'r toiledau cyhoeddus yn eu wardiau ar gyfer 2024/25, dim ond nifer fechan o ymatebion cadarnhaol a gafwyd i'r cais hwn. Yna fe wnaethom ysgrifennu i ofyn i'r Cynghorau Tref a Chymuned ac Aelodau Etholedig annog busnesau yn eu hardal i wneud cais i ymuno â'r Cynllun Toiledau Cymunedol. Mae'r wybodaeth am y cynllun ar wefan y Cyngor wedi cael ei hadolygu a'i gwella.

Mae toiledau yn adeiladau'r Cyngor wedi cael eu hagor fel eu bod ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.

Drwy sicrhau bod toiledau yn adeiladau'r Cyngor ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd a pharhau i hyrwyddo ein Cynllun Toiledau Cymunedol, sy'n golygu bod cyfleusterau ar gael yn rhad ac am ddim, ein nod yw cynyddu darpariaeth toiledau cyhoeddus. Gallai hyn hefyd ddarparu toiledau o safon well o'u cymharu â'r toiledau cyhoeddus hŷn sy'n cael eu cau, gyda mwy o gyfleusterau megis cyfleusterau newid babanod a thoiledau hygyrch.

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

Defnyddwyr toiledau cyhoeddus
Cynghorau Tref a Chymuned
Aelodau Etholedig
Grwpiau Budd-ddeiliaid sy'n cynrychioli nodweddion gwarchodedig
Busnesau lleol

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol – mwy o ddarpariaeth o doiledau hygyrch sydd o well safon efallai na'r toiledau cyhoeddus hŷn sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor.<br><br>Negyddol – mae rhai toiledau hygyrch yn cau ac efallai na fydd opsiynau eraill yn yr ardal leol, mae hyn yn dibynnu a fydd busnesau'n ymuno â'r cynllun toiledau cymunedol a lleoliad adeiladau addas y Cyngor. | | |
| **Rhyw** | Mae data ystadegau cenedlaethol yn dangos bod 51% o boblogaeth Conwy yn ferched a 49% yn ddynion, sy'n gyson â'r gymhareb merched/dynion yng Nghymru.<br><br>Cafwyd mwy o ymateb gan ferched (65%) na dynion (29%) i'r ymgynghoriad yn 2019.<br><br>Er bod toiledau cyhoeddus yn cau mewn rhai ardaloedd, mae'r Strategaeth Toiledau Lleol yn edrych a oes toiledau heb fod ar gyfer rhywedd penodol ar gael mewn busnesau ar hyd a lled Conwy i benderfynu a yw'n bosibl cynyddu'r nifer sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn y sir. | Cadarnhaol | Dynion / Merched<br>Hunaniaeth Rhywedd<br>Cyfleusterau toiled / newid babi<br>Gofal plant<br>Bwlch Tâl Rhwng y Rhywiau<br>Gweithwyr rhyw<br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Merched (UNCEDAW)<br>Ystyriwch faterion rhyngblethedd |
| **Oedran** | Cafwyd ymatebion gan ystod o grwpiau oedran i'r ymgynghoriad toiledau cyhoeddus yn 2019, oedd yn gyson yn gyffredinol â demograffeg Conwy, ac eithrio'r rhai rhwng 75-85, a oedd yn cael eu tangynrychioli. | Cadarnhaol a negyddol | Pobl Hŷn<br>Plant<br>Pobl Ifanc<br>Pobl o Oed Gweithio<br>Teuluoedd Ifanc<br>Demograffeg<br>DS: Os oes plant / pobl ifanc yn cael eu heffeithio, cwblhewch y Rhestr Wirio Hawliau Plant |

<table>
<tr><th>Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig</th><th>Data Perthnasol</th><th>Effaith gadarnhaol a/neu negyddol</th><th>Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>Ystyriwch:</th></tr>
<tr><td></td><td>
<table>
<tr><th>Ystod oedran</th><th>Ymatebion</th><th>Demograffeg</th></tr>
<tr><td>16-24</td><td>6%</td><td>9%</td></tr>
<tr><td>25-34</td><td>15%</td><td>10%</td></tr>
<tr><td>35-44</td><td>20%</td><td>10%</td></tr>
<tr><td>45-54</td><td>21%</td><td>13%</td></tr>
<tr><td>55-64</td><td>20%</td><td>15%</td></tr>
<tr><td>65-74</td><td>16%</td><td>14%</td></tr>
<tr><td>75-85</td><td>3%</td><td>9%</td></tr>
</table>
<br>Mae gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith bod sicrhau bod toiledau ar gael yn arbennig o bwysig i'r nodwedd warchodedig hon.<br><br>Mae ymchwil a wnaed gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi dangos y gall pryderon am doiledau cyhoeddus rwystro ac atal rhai pobl hŷn (60+ oed) rhag gadael eu tai, yn enwedig pobl â chyflyrau meddygol.<br><br>Mae'r Comisiynydd yn nodi y gall camau gan Awdurdodau Lleol, megis gweithio gyda busnesau lleol i ehangu darpariaeth toiledau cyhoeddus ddod â manteision sylweddol i'r grŵp hwn.<br><br>Er bod toiledau cyhoeddus yn cau mewn rhai ardaloedd, mae'r Strategaeth Toiledau Lleol yn bwriadu gweithio gyda busnesau lleol ac agor toiledau yn adeiladau'r Cyngor i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth toiledau lleol ar hyd a lled y sir.</td><td></td><td>'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)<br>Ystyriwch faterion rhyngblethedd</td></tr>
</table>

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Bydd gwybodaeth am leoliadau'r toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio ar wefan y Cyngor i sicrhau y gall y cyhoedd ddod o hyd i'r toiled agosaf.<br>Bydd busnesau sy'n rhan o'r cynllun toiledau cymunedol yn arddangos arwydd mewn lle amlwg i roi gwybod i'r cyhoedd bod y toiledau ar gael iddynt eu defnyddio.<br><br>Bydd yr effaith ar y grŵp yn gadarnhaol ac yn negyddol:<br>Cadarnhaol – mwy o ddarpariaeth o doiledau hygyrch sydd o well safon efallai na'r toiledau cyhoeddus hŷn sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor.<br><br>Negyddol – mae rhai toiledau hygyrch yn cau ac efallai na fydd opsiynau eraill yn yr ardal leol, mae hyn yn dibynnu a fydd busnesau'n ymuno â'r cynllun toiledau cymunedol a lleoliad adeiladau addas y Cyngor. | | |
| **Crefydd a Chred** | Mae data cenedlaethol ar grefydd yng Nghymru yn dangos bod 53% o boblogaeth Gogledd Cymru yn nodi mai Cristnogaeth yw eu crefydd, mae 44% yn nodi nad oes ganddynt grefydd a 2% grefyddau eraill.<br><br>Credir na fydd unrhyw effaith gwahaniaethol ar y grŵp gwarchodedig hwn ond byddwn yn ceisio casglu data monitro cydraddoldeb ar y nodwedd warchodedig hon pan fo'n bosibl i fonitro unrhyw effaith bosibl. | | Cymunedau ffydd<br>Dim Cred<br>Gofynion diet<br>Bwydlysyddiaeth / Feganiaeth<br>Credoau athronyddol eraill<br>Cod gwisg / gwisgoedd ffurfiol<br>Gwyliau/gweithgareddau crefyddol<br>Ystyriwch faterion rhyngblethedd |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Mae data cenedlaethol ar gyfeiriadedd rhywiol yn dangos bod 96% yng Ngogledd Cymru yn heterorywiol, 1% yn hoyw neu lesbiaid a 0.3% arall. | | Hoyw<br>Lesbiaidd<br>Deurywiol<br>Heterorywiol |

